# Gweithdrefn Diogelu Plant

# Mynegai


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a chyd-destun | 3 |
| 2 | Strwythur Diogelu | 5 |
| 3 | Adnabod a Diffinio Plant sy'n wynebu Risg | 6 |
| 4 | Categorïau Camdriniaeth Plant | 8 |
| 5 | Arwyddion a Dangosyddion Camdriniaeth ac Esgeulustod | 11 |
| 6 | Ffotograffiaeth a Fideo | 12 |
| 7 | Plant sydd ar goll | 15 |
| 8 | Ymweliadau Ysgol / Grŵp | 19 |
| 9 | Plant yn ymweld ar eu pen eu hunain | 21 |
| 10 | Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder | 23 |
| 11 | Camau Ychwanegol ar gyfer Arweinwyr Diogelu | 27 |
| 12 | Geirfa a Diffiniadau | 28 |

# 1. Cyflwyniad a chyd-destun

1.1. Nod Amgueddfa Cymru yw ysbrydoli pobl a newid bywydau. Mae ein Gweledigaeth, ein Hymrwymiadau a'n Gwerthoedd yn nodi'r disgwyliad y byddwn ni'n parchu eraill, yn gweithredu'n gyfrifol ac yn diogelu lles ein gilydd.

1.2. Mae Polisi Diogelu Amgueddfa Cymru yn nodi bod disgwyliad llwyr ar bawb sy'n gweithio ar ran Amgueddfa Cymru, neu gyda'r Amgueddfa, i lynu at ei Pholisi a'i Gweithdrefnau Diogelu – mae hyn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid.

1.3. Rydyn ni'n cydnabod bod ein tîm o staff sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn rhyngweithio ag amrywiaeth o unigolion o bob cwr o Gymru a'r byd. Mae hyn yn cynnwys plant a allai fod yn fwy agored i niwed neu blant sydd yn wynebu risg.

1.4. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant rhag camdriniaeth. Mae cyfrifoldeb ar y cyd gennym ni i sicrhau diogelwch a lles pob plentyn, a byddwn yn gweithredu'n briodol ac yn adrodd am unrhyw bryderon, boed rheini'n codi ar safleoedd Amgueddfa Cymru neu yn y gymuned ehangach.

1.5. Mae'r gweithdrefnau yma'n gymwys ym mhob safle ac adeilad Amgueddfa Cymru ac yn unrhyw le arall.


1.6. Rhaid i unrhyw un sydd â phryderon am ddiogelwch a/neu les plentyn weithredu ar y pryderon hynny gan ddilyn y gweithdrefnau yma.

1.7. **Nid eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a yw plentyn wedi cael ei gam-drin ai peidio. Mae cyfrifoldeb arnoch chi, fodd bynnag, i weithredu ar unrhyw bryderon. Ni ddylai diffyg gweithredu fod yn opsiwn.**

1.8. Bydd Amgueddfa Cymru yn cefnogi'r rhai sy'n codi pryderon am faterion diogelu ac yn hyrwyddo lles pawb.

1.9. Yn Amgueddfa Cymru byddwn yn ymdrechu i sicrhau dull diogelu sy'n seiliedig ar blant, gan ganolbwyntio ar anghenion y plentyn yn ystod pob cam o'r broses ddiogelu. Byddwn yn gwrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud, yn rhoi gwybod iddyn nhw am y broses sy'n cael ei dilyn ac yn trafod â nhw yn ystod y broses, gan roi sylw dyledus i'w dymuniadau.

## 2. Strwythur Diogelu



# 3. Adnabod a Diffinio Plant sy’n wynebu Risg

3.1. Mae unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn yn ôl y gyfraith.[1]

3.2. Mae Deddf Plant 1989 yn mynnu mai lles y plentyn ddylai fod yn flaenoriaeth. Atgyfnerthir hyn gan weithdrefnau Diogelu Cymru sy’n gorchymyn i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan a chyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn.

3.3. Mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio Plentyn sy’n wynebu risg[2] fel unigolyn o dan 18 mlwydd oed:

- Sy’n cael, neu sy’n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed

AC

- y mae arno anghenion gofal a chymorth

(p’un a yw’r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio)

3.4. Ystyr esgeulustod yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy’n debygol o arwain at amharu ar ei les, iechyd neu ddatblygiad.

3.5. Lle bod plentyn yn wynebu risg, mae’r SSWBA yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol yn gwneud ymholiadau priodol yn eu barn nhw, neu drefnu bod yr ymholiadau

---

[1] Deddf Plant 1989/2004, Erthygl 1 Deddf Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ac Adran 3 SSWBA 2014

[2] s130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

hyn yn cael eu gwneud, er mwyn penderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plant.

3.6. Mae gan bob plentyn, waeth beth fo'i oedran, gallu neu anabledd, rhywedd, hil, crefydd, ethnigedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu statws rhyw'r hawl i gael ei ddiogelu rhag camdriniaeth ac arfer gwael ac i fyw mewn amgylchedd braf a diogel.

# 4. Categorïau Camdriniaeth Plant

4.1. Camdriniaeth yw ymyrryd ar hawliau dynol a sifil unigolyn gan berson arall neu bobl eraill.

4.2. Gall camdriniaeth ddigwydd mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Bydd rhai yn hawdd eu hadnabod, ond caiff camdriniaeth ei guddio yn aml ac nid yw'n cael ei ddatgelu neu ei weld. Oherwydd hyn, gweithredir ar bryderon lle cânt eu nodi, darperir cefnogaeth, a lle bo'n briodol hysbysir pobl eraill.

4.3. Gall camdriniaeth ddigwydd i unrhyw unigolyn mewn unrhyw le. Er enghraifft, gall camdriniaeth ddigwydd mewn amgylchedd cartref, ond gall gael ei adrodd neu fod yn weladwy mewn unrhyw amgylchedd arall.

4.4. Mae pum categori diffiniedig o Gamdriniaeth Plant[3]:

- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol
- Emosiynol
- Seicolegol

4.4.1. **Corfforol** – Mae hyn yn cynnwys bwrw, slapio, camddefnydd moddion, ataliaeth ormodol neu sancsiynau anaddas.

4.4.2. **Rhywiol** – Mae hyn yn cynnwys treisio ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r plentyn wedi, neu heb allu, cydsynio iddynt a / neu o dan bwysau i gydsynio.

4.4.3. **Ariannol** – Mae cam-drin ariannol yn cynnwys dwyn, twyll, pwysau am arian, camddefnyddio arian.

[3] Adran 197, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4.4.4. **Emosiynol –** cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus. Gall camdriniaeth emosiynol gynnwys ceisio dychryn neu fychanu plentyn yn fwriadol neu ei ynysu neu anwybyddu. Yn aml, mae plant sy'n cael eu cam-drin yn emosiynol yn dioddef math arall o gamdriniaeth neu esgeulustod ar yr un pryd.

4.4.5. **Seicolegol** – Mae hyn yn cynnwys bygythiadau o niwed neu fygwth gadael, rheolaeth orfodol, cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu yn ôl oddi wrth wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol; diffinnir rheolaeth orfodol fel gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, cywilyddio, codi braw neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi neu godi braw ar y dioddefwr.

4.5. Yn ychwanegol, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ymddygiadau ychwanegol sy'n dod o dan y categorïau uchod, ond sydd yn ffurfiau penodol o gamdriniaeth eu hunain:

4.5.1. **Eithafiaeth a Radicaleiddio** – Diffinnir Eithafiaeth yn y Strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, trefn y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch rhwng y naill a'r llall o wahanol grefyddau a chredoau. Yn ein diffiniad o eithafiaeth, rydym hefyd yn cynnwys galwadau am farwolaeth o aelodau ein lluoedd arfog, yn y wlad hon neu dramor. Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses pan fydd unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth neu ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgaeth. Caiff plant gyda chefndir trwblus neu gythryblus eu targedu'n aml, ac maent yn enwedig o agored i niwed drwy ecsbloetio.

4.5.2. **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod** – Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnwys unrhyw gamau i dorri organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu achosi niwed arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau heblaw rhai meddygol. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i adrodd ar bob pryderon ynghylch Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

4.5.3. **Caethwasiaeth Fodern** – Mae Caethwasiaeth Fodern yn cwmpasu masnachu pobl a chaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol.

4.5.4. **Camfanteisio Troseddol** – Mae Camfanteisio Troseddol yn ffurf o gaethwasiaeth fodern lle mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio o dan reolaeth troseddwyr cyfundrefnol mewn gweithgarwch anghyfreithiol megis cardota, dwyn a phigo pocedi dan orfod, tyfu canabis, gwerthu cyffuriau ac escbloetiaeth ariannol.

4.6. **Cofiwch, nid eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a yw plentyn wedi cael ei gam-drin ai peidio. Mae cyfrifoldeb arnoch chi, fodd bynnag, i weithredu ar unrhyw bryderon. Ni ddylai diffyg gweithredu fod yn opsiwn.**

# 5. Arwyddion a Dangosyddion Camdriniaeth ac Esgeulustod

5.1. Gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw gyd-destun a gan bob math o dramgwyddwr. Mae’n bwysig cydnabod y gallai’r gamdriniaeth fod wedi digwydd o fewn safleoedd Amgueddfa Cymru neu rywle arall.

5.2. Mae nifer o arwyddion a dangosyddion a all awgrymu bod rhywun yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:

- Cleisiau neu anafiadau aml neu heb esboniad, neu esboniad anghyson
- Gwadu anafiadau neu ddiffyg sylw meddygol pan fydd ganddynt anaf
- Anafiadau niferus neu anafiadau dro ar ôl tro
- Glanweithdra gwael, dillad
- Dwyn neu guddio bwyd
- Newid sylweddol mewn ymddygiad neu hyder person
- Pryder amlwg neu’n ymddangos yn bryderus yng nghwmni pobl eraill neu unigolion penodol
- Hunan-niwed
- Efallai bydd ganddynt ofn o grŵp penodol o bobl neu unigolyn
- Iaith rywiol sy’n anaddas i’w oedran
- Datgelu camdriniaeth

5.3. Nid yw presenoldeb un neu fwy o’r arwyddion hyn yn golygu o reidrwydd bod person yn cael ei gam-drin, ond dylai ysgogi camau pellach, o leiaf siarad ag Arweinydd Diogelu Safle Amgueddfa Cymru neu’r Arweinydd Diogelu Penodedig (gweler Adran 9 – Beth i’w wneud os oes gennych chi bryder).

## 6. Ffotograffiaeth a Fideo

6.1. Gyda thechnoleg ffotograff a fideo digidol ar gael yn rhwydd, bydd ymwelwyr/mynychwyr yn tynnu lluniau llonydd a symudol o fewn safleoedd Amgueddfa Cymru yn aml. Fodd bynnag, rhaid cael mesurau priodol mewn grym i ddiogelu plant yn ein safleoedd.

6.2. Bydd achlysuron lle na chaniateir tynnu lluniau, er enghraifft er mwyn diogelu hawlfraint, at ddibenion cadwraeth arddangosfeydd neu ar gyfer digwyddiadau penodol (a chaiff y rheol 'Dim Ffotograffiaeth' ei hysbysu'n glir).

6.3. Bydd Amgueddfa Cymru yn caniatáu ffotograffiaeth ddifflach at ddefnydd personol neu ar gyfer astudio dros ei safleoedd. Ni chaniateir defnyddio trybeddau, bipodau, monopodau neu ffyn hunlun at ddefnydd personol/ar gyfer astudio ac eithrio o dan amodau llym, a amlinellir mewn ffurflen datganiad ar gael o'r dderbynfa. Dylid llenwi'r ffurflen hon cyn defnyddio'r offer a nodwyd uchod. Bydd ymwelwyr sydd wedi cwblhau'r datganiad yn gwisgo sticer lliw i ddangos eu bod wedi gwneud.

6.4. Ni chaniateir ffotograffiaeth fasnachol neu gyda drôn oni bai ei fod wedi'i chymeradwyo ymlaen llaw gyda'r Adran Farchnata ar y cyd â'r Pennaeth Safle a Phennaeth Diogelwch Amgueddfa Cymru.

6.5. Dylid cofio hefyd y gall fod cyfyngiadau cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn wrth ofalu am rai plant, neu y gallant fod yn wynebu risg gan unigolion penodol. Nid yw staff Amgueddfa Cymru yn debygol o wybod am bryderon unigol o'r fath, felly mae cydnabod y gall y risgiau hyn fod yn bresennol yn gyffredinol yn arfer da.

6.6. Dylid herio unrhyw un y mae'n ymddangos ei fod yn tynnu lluniau neu'n ffilmio dan amgylchiadau amhriodol lle bo sail resymol am amheuaeth (gweler pwynt 6.7 isod). Gall hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol):

- Plant yn newid dillad neu'n defnyddio cyfleusterau toiled
- Defnyddio camera ar y llawr neu o dan fyrddau/desgiau lle byddai modd tynnu ffotograffau i fyny sgertiau

- Lluniau o blant a gymerwyd gan ddieithriaid

6.7. Pe bai pryder o'r fath (neu debyg) yn dod i sylw unrhyw aelod o staff, dylent herio'r ymddygiad hwn os ydynt yn teimlo'n ddigon diogel i wneud hynny. Dylent hefyd hysbysu Pennaeth yr Amgueddfa, y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr, Rheolwr y Pwll neu'r person ar ddyletswydd sy'n gyfrifol am ddiogelu, yn ogystal â Rheolwr Diogelu'r Safle ar unwaith, a ddylai hefyd herio ymddygiad anaddas os ydynt yn teimlo'n ddigon diogel i wneud hynny. Os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel i wneud, dylid ystyried cyfeirio'r mater at yr heddlu ar unwaith, yn unol â 6.8 isod.

6.8. Dylid cofio nad yw tynnu ffotograffau heb gydsyniad yn drosedd, ond gallai cymryd ffotograff anweddus fod yn drosedd. Nid cyfrifoldeb Amgueddfa Cymru yw pennu a oes troseddau yn digwydd. Fodd bynnag, pe bai fod gan unrhyw aelod staff bryderon sylweddol neu ddifrifol ynghylch ymddygiad unrhyw unigolyn tuag at blentyn, dylid rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith.

**Tynnu ffotograffau/Ffilmio gan Staff**

6.9. Oni bai ei fod ar gyfer achlysuron a gynlluniwyd ac a awdurdodwyd ymlaen llaw, ni fydd staff yn tynnu lluniau o ymwelwyr/mynychwyr ar safleoedd Amgueddfa Cymru.

6.10. Yr unig eithriad fyddai lle bod ymwelydd/mynychwr yn gofyn i aelod staff ddefnyddio ei ddyfais i dynnu llun o grŵp/unigolyn ar ei ran. Er eglurdeb, ni all yr aelod staff ddefnyddio ei ddyfais bersonol ei hun at y dibenion hynny.

6.11. Pe bai ymwelydd/mynychwyr yn gwahodd aelod o staff Amgueddfa Cymru i fod yn rhan o ffotograff, dyma fater i'r unigolyn benderfynu a ydynt am i'r person dynnu ei lun. Dylai aelodau staff ymddwyn yn briodol mewn ffotograff o'r fath, a bod yn ofalus i beidio niweidio enw da Amgueddfa Cymru mewn unrhyw ffordd.

6.12. Pan mae ffotograffiaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw am ddigwydd gan staff Amgueddfa Cymru neu gontractwr cymeradwy, rhaid cael mesurau diogelu mewn grym, gan gynnwys:

- Dylai plant cael eu holi/hysbysu am y bwriad i dynnu lluniau yn ystod eu hymweliad a'r rhesymau dros wneud hynny.

- Rhaid i rieni/gwarchodwyr fod yn ymwybodol o'r rheswm dros dynnu'r lluniau, sut caiff y lluniau eu defnyddio a'u storio, a threfniadau ar gyfer tynnu cydsyniad yn ôl yn y dyfodol, yn unol â Rheoliadau Diogelu Data.

- Os mai defnyddio'r delweddau ar-lein neu mewn cyhoeddiadau argraffedig yw'r bwriad, dylid ei wneud yn glir iawn y bydd yn anodd iawn adalw delweddau a gyhoeddwyd.

- RHAID cael cydsyniad rhieni/gwarchodwyr yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Rhaid storio pob ffurflen cydsyniad o fewn yr Adran Addysg.

# 7. Plant sydd ar goll

**Adroddiadau am Blant sydd ar goll**

7.1. Rhaid trin unrhyw adroddiadau o blant sydd ar goll fel risg uchel, gyda chymorth ac adnoddau'n cael eu rhoi mewn grym ar unwaith i'w darganfod.

7.2. Yn dilyn unrhyw bryder/adroddiad am blentyn sydd ar goll, rhaid i staff roi gwybod i'w Rheolwr Llinell, Arweinydd Diogelu'r Safle a Rheolwr y Safle. Y Rheolwr Safle fydd yn cael goruchafiaeth am unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu.

7.3. Dylech geisio cymaint o fanylion am y plentyn ag sy'n bosibl, gan gynnwys y canlynol, lle bod modd:

- enw'r plentyn
- oedran y plentyn
- cyfeiriad y plentyn/enw ei ysgol
- perthynas agosaf
- disgrifiad corfforol o'r plentyn (taldra, lliw gwallt, dillad ac ati)
- ble gwelwyd y plentyn ddiwethaf
- pryd welwyd y plentyn ddiwethaf
- unrhyw ffotograffau diweddar
- os oes ganddynt ffôn symudol, a oes rhywun wedi ceisio cysylltu â nhw?

7.4. Gwnewch chwiliad cychwynnol am y plentyn. Os na ddewch chi o hyd iddo, cysylltwch â'r heddlu cyn gynted â phosibl.

7.5. Y Rheolwr Safle fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio systemau cyfarch y cyhoedd er mwyn annog y cyhoedd i chwilio am y plentyn sydd ar goll. Rhaid pwyso a mesur, gan y gallai hynny achosi pryder, tarfu ar bobl yn ddiangen ac angen adnoddau ychwanegol, ac o bosib tynnu oddi ar y dasg o ddarganfod y plentyn sydd ar goll.

7.6. Os bydd yr heddlu yn dod, nhw fydd yn cael goruchafiaeth am unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu. Bydd Amgueddfa Cymru yn cynnig pob cymorth ac adnodd sydd ar gael er mwyn cydweithredu ag ymholiadau'r heddlu.

7.7. Rhaid penodi aelod o staff i aros gyda'r unigolyn sydd wedi adrodd bod plentyn ar goll. Cydnabyddir y gall y person hwnnw fod yn rhiant, gwarchodwr, athro/athrawes neu oedolyn arall. Os bydd person o dan 18 mlwydd oed (plentyn) yn adrodd bod plentyn ar goll, rhaid penodi dau aelod o staff i aros gyda'r unigolyn/unigolion. Rôl yr aelodau staff hynny yw sicrhau a diweddaru'r person, a bod y pwynt cyswllt cyntaf i bobl eraill.

7.8. Yn dibynnu os bydd rhywun ar gael, ystyriwch benodi aelod o staff i wirio teledu cylch cyfyng Amgueddfa Cymru er mwyn nodi cyfleoedd i ddarganfod y plentyn sydd ar goll.

7.9. Pan fyddwch chi wedi dod o hyd i'r plentyn, dylid ei aduno â'r unigolyn a adroddodd fod y plentyn ar goll. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau mai nhw ydy'r plentyn oedd ar goll.

7.10. Yn dilyn unrhyw achlysur lle bod plentyn wedi bod ar goll am gyfnod estynedig, ac yn enwedig lle bod yr heddlu wedi'u hysbysu, bydd y Rheolwr Safle ac Arweinydd Diogelu'r Safle neu berson dirprwyedig yn adolygu'r amgylchiadau a chofnodi'r camau gweithredu a gymerwyd, gan gynnwys yr Arweinydd Diogelu Penodedig lle bo'n briodol. Dylid enwi aelodau staff a oedd yn rhan o'r chwiliad yn yr adroddiad. Bydd hyn yn nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu a allai fod o fudd wrth chwilio am blant sydd ar goll yn y dyfodol. Rhaid i'r canlyniadau gael eu cyfathrebu i'r Arweinydd Diogelu Penodedig a'u cofnodi ganddo. Rhaid cyfathrebu'r canlyniadau i'r Arweinydd Diogelu Penodedig i'w cofnodi.

**Plant sydd wedi'u canfod**

7.11. Dylai aelodau staff sy'n dod o hyd i blentyn sydd ar goll aros gyda'r plentyn hwnnw mewn gofod cyhoeddus, a dod o hyd i aelod arall o staff i aros gyda nhw a'r plentyn cyn gynted â phosib.

7.12. Gallai'r plentyn fod yn ofidus – ceisiwch eu tawelu a rhoi sicrwydd iddo fod pod ymdrech yn cael ei wneud i'w aduno gyda'i riant neu warchodwr.

7.13. Dylech geisio cymaint o fanylion gan y plentyn ag sy’n bosibl, gan gynnwys y canlynol, lle bod modd:

- enw’r plentyn
- oedran y plentyn
- cyfeiriad y plentyn/enw ei ysgol
- perthynas agosaf
- disgrifiad corfforol o’r plentyn (taldra, lliw gwallt, dillad ac ati)
- ble daethpwyd o hyd i’r plentyn
- gofynnwch a oes gan y plentyn ffôn symudol ac os felly, a oes modd cysylltu ag oedolyn cyfrifol

7.14. Bydd aelodau staff yn ceisio aduno’r plentyn a’i rieni/gwarchodwyr/athrawon ac ati ar unwaith. Dylid aduno’r plentyn â’i warchodwr cyn gynted â phosib, ond dylid cymryd gofal i sicrhau mai nhw ydy gwarchodwr go iawn y plentyn.

7.15. Rhaid i staff roi gwybod i’w Rheolwr Llinell a fydd yn penderfynu a oes angen hysbysu Arweinydd Diogelu’r Safle a’r Rheolwr Safle. Os na fydd modd dod o hyd i’r rhiant/gwarchodwr, y Rheolwr Safle fydd yn cael goruchafiaeth am unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu.

7.16. Y Rheolwr Safle fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio systemau cyfarch y cyhoedd er mwyn annog y cyhoedd i chwilio am rieni’r plentyn sydd ar goll.

7.17. Er ei fod yn annhebygol o ddigwydd, os na fydd modd dod o hyd i’r rhiant/gwarchodwr, y Rheolwr Safle fydd yn cael goruchafiaeth am benderfynu a oes angen ffonio’r heddlu. Mewn achos o’r fath, yr heddlu fydd yn cael goruchafiaeth am unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu. Bydd Amgueddfa Cymru yn cefnogi ymholiadau’r heddlu yn ôl yr angen.

7.18. Yn dilyn unrhyw achlysur lle bod plentyn wedi bod ar goll/wedi’i ganfod am gyfnod estynedig, ac yn enwedig lle bod yr heddlu wedi’u hysbysu, bydd y Rheolwr Safle ac Arweinydd Diogelu’r Safle yn adolygu’r amgylchiadau a chofnodi’r camau gweithredu a gymerwyd, gan gynnwys yr Arweinydd Diogelu Penodedig lle bo’n briodol. Dylid enwi aelodau staff a oedd yn rhan o’r chwiliad yn yr adroddiad. Bydd hyn yn nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu a allai fod o fudd wrth adrodd am blant sydd ar goll yn y dyfodol. Rhaid cyfathrebu’r canlyniadau i’r Arweinydd Diogelu Penodedig i’w cofnodi.

# 8. Ymweliadau Ysgol / Grŵp

8.1. Mae arweinwyr ysgol neu grŵp sy'n dod â phlant i safleoedd Amgueddfa Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am eu gofal a'u goruchwyliaeth. Dylai unrhyw ysgol, grŵp neu sefydliad sy'n dod â phlant i'r safleoedd sicrhau eu bod wedi cynllunio a chynnal asesiad risg am fynychu, yn unol ag anghenion y mynychwyr a'n hamgylchedd.

8.2. Mae'n gyfrifoldeb ar sefydliadau sy'n mynychu fod staff sy'n goruchwylio plant wedi'u recriwtio yn unol â gweithdrefnau recriwtio diogel argymelledig, a bod Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ymlaen llaw ar gyfer unrhyw Weithgaredd a Reoleiddir.

8.3. Cyfrifoldeb sefydliadau sy'n ymweld yw sicrhau y darperir gwarchodaeth yswiriant digonol i oruchwylwyr a phlant.

8.4. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod ei dyletswydd i ddiogelu ymwelwyr i'w safleoedd, ac felly bydd yn darparu disgwyliadau diogelu er mwyn i bawb sy'n ymweld neu'n gweithio o fewn ei safleoedd gydymffurfio â nhw. I'r perwyl hwnnw, rhaid ymddwyn yn briodol bob amser er mwyn sicrhau diogelwch y grŵp a phobl eraill.

8.5. Does dim oedran isaf ar gyfer ymweliadau ysgol/grŵp ag Amgueddfa Cymru.

8.6. Er bod gan Amgueddfa Cymru safleoedd amrywiol, disgwyliwn i blant sydd ar ymweliadau grŵp/ysgol gael eu goruchwylio yn unol â disgwyliadau a fynnwyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol[4] ac a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Rhaid cael isafswm o ddau oedolyn yn bresennol bob amser.
- Lle bo'n bosib, dylai plant benywaidd gael goruchwyliwr oedolyn benywaidd, a dylai plant gwrywaidd gael goruchwyliwr oedolyn gwrywaidd. Dylai grwpiau cymysg gael goruchwylwyr oedolyn gwrywaidd a benywaidd (cydnabyddir nad yw hyn bob amser yn bosib).

[4] https://neu.org.uk/media/926/view

- Rhaid cael un oedolyn ar gyfer bob 6 plentyn ym mlwyddyn ysgol 1 i 3 (plant rhwng 5 ac 8 oed).
- Rhaid cael un oedolyn ar gyfer bob 10 plentyn ym mlwyddyn ysgol 4 i 6 (plant rhwng 9 ac 11 oed).
- Rhaid cael un oedolyn ar gyfer bob 15 plentyn ym mlwyddyn ysgol 7 ac uwch (plant 12 oed ac uwch).
- Dylai o leiaf un aelod o staff fod yn swyddog cymorth cyntaf cymwysedig, ac yn ymwybodol o anghenion meddygol arbennig unrhyw aelod o'r grŵp.
- Mae'n bosib y bydd angen cymhareb uwch ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

8.7. Rhaid i oruchwylwyr sicrhau y caiff plant eu goruchwylio bob amser, gan gynnwys yn ystod amser egwyl neu amser cinio.

8.8. Os bydd digwyddiad neu ddamwain, dylai goruchwylwyr roi gwybod i aelod o staff Amgueddfa Cymru ar unwaith er mwyn i weithdrefnau argyfwng gael eu rhoi ar waith fel y bo'n briodol.

8.9. Os bydd plentyn yn mynd ar goll, dylai goruchwylwyr y grŵp roi gwybod i aelod o staff Amgueddfa Cymru ar unwaith.

8.10. Os bydd digwyddiad difrifol, dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Addysg a'r Rheolwr Safle, a gall camau gweithredu pellach gael eu cymryd fel y bo'n briodol. Gall camau pellach gynnwys gofyn i'r grŵp adael, adrodd am bryderon i'r ysgol/sefydliad, ac os oes angen, yr heddlu. Rhaid cofnodi unrhyw gamau gweithredu o'r fath a'u cyflwyno i'r Pennaeth Addysg, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn dysgu o'r digwyddiad, ac i atal yr un grŵp/sefydliad rhag ymweld â safleoedd eraill Amgueddfa Cymru lle bo'n briodol.

# 9. Plant yn ymweld ar eu pen eu hunain

9.1. Mae unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn yn ôl y gyfraith.[5]

9.2. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod y bydd plant yn mynychu ein safleoedd heb oruchwylydd sy'n oedolyn o bryd i'w gilydd. Cydnabyddir bod gennym ddyletswydd gofal i bobl ar ein safleoedd, ond yn ychwanegol mae dyletswydd arnom i ddiogelu ein hystâd, ein staff a'n harddangosfeydd. Gan hynny, byddwn yn diffinio ein disgwyliad lleiaf ar gyfer plant sy'n dod i'n safleoedd.

9.3. Bydd unrhyw blentyn o dan 18 oed sy'n dod i'r Amgueddfa ar ei ben ei hun yn gwneud hynny gan ddeall mai cyfrifoldeb ei rieni/ofalwyr yw barnu os oes angen i rywun fynd gyda'u plentyn, hyd yn oed os yw'r plentyn yn hŷn na'r oedrannau isod. Mae rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am benderfynu a yw'n ddiogel a phriodol caniatáu i'w plentyn fynychu ar ei ben ei hun, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o aeddfedrwydd datblygol cyffredinol eu plentyn, a'i ymwybyddiaeth o'r risgiau posibl.

9.4. Lle bod plentyn yn ymweld â'n hamgueddfeydd ar ei ben ei hun, mae'n briodol i staff Amgueddfa Cymru gwestiynu ei oedran lle bo'n briodol gwneud, yn arbennig lle bod y plentyn yn edrych o dan 13 mlwydd oed.

9.5. Rhaid i blant 14 oed ac yn iau fod yng nghwmni oedolyn 18 mlwydd oed neu'n hŷn.

9.6. Caniateir mynediad i unrhyw blentyn sy'n dod i'n hamgueddfeydd heb oruchwylydd sy'n oedolyn, cyn belled ei fod o leiaf 16 mlwydd oed.

9.7. Mae Amgueddfa Cymru yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i grwpiau o blant rhwng 13 ac 17 mlwydd oed heb oruchwylydd sy'n oedolyn (dan amodau paragraff 9.9 isod). Y Rheolwr Safle fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath.

---

5 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Rhan I, Erthygl 1; Https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx

9.8. Lle bod grwpiau o blant rhwng 13 ac 17 mlwydd oed wedi cael mynediad heb oruchwylydd sy'n oedolyn, mae Amgueddfa Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i unigolion i adael os bydd eu gweithrediadau neu eu hymddygiad yn afreolus, trafferthus, peryglus neu'n achosi risg i unrhyw berson neu eiddo ym marn y Rheolwr Safle (dan amodau paragraff 9.9 isod).

9.9. Lle bod grwpiau o blant o dan 13 oed heb oruchwylydd sy'n oedolyn yn dod i'n hamgueddfeydd, NEU lle caiff mynediad i grwpiau o blant rhwng 13 ac 17 oed heb oruchwylydd sy'n oedolyn ei wrthod, NEU lle gofynnir i grwpiau o blant rhwng 13 ac 17 oed adael, ni fyddwn yn gofyn i'r plant hynny adael y safle ar unwaith, h.y. eu troi allan i'r stryd heb oruchwyliaeth.

9.9.1. Bydd Arweinydd Diogelu'r Safle a/neu'r Rheolwr Safle neu berson dirprwyedig yn penderfynu ar y camau gweithredu angenrheidiol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

9.9.2. Dylai o leiaf dau aelod o staff aros gyda'r plentyn neu grŵp bob amser.

9.9.3. Anogir i blant gysylltu â'u rhieni/gofalwyr i drefnu iddynt eu casglu nhw cyn gynted â phosib. Lle bo'n briodol, bydd Amgueddfa Cymru yn ffonio rhieni/gofalwyr ar ran plentyn neu blant.

9.9.4. Pe bai plant yn dymuno gadael y lleoliad ar eu pen eu hunain/heb oruchwylydd, ni ddylid gwneud unrhyw ymdrech gorfforol i'w hatal.

9.9.5. Os bydd risg neu bryder sylweddol, dylid ystyried rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith drwy ffonio 101 neu 999.

9.9.6. Rhaid i Arweinydd Diogelu'r Safle gofnodi manylion y digwyddiad a'u cyflwyno mewn da bryd i'r Arweinydd Diogelu Penodedig.

9.10. Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod y disgwyliadau hyn yn amlwg ac yn glir drwy docynnau/y wefan a mynedfeydd.

# 10. Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder

10.1. Nid cyfrifoldeb gweithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol na chleientiaid Amgueddfa Cymru yw pennu a oes camdriniaeth neu esgeulustod yn digwydd mewn gwirionedd.

10.2. Mae cyfrifoldeb ar weithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid Amgueddfa Cymru i **YMATEB**, **COFNODI** ac **ADRODD** am bryderon, yn unol â Pholisi Diogelu Amgueddfa Cymru.

10.3. Bydd Amgueddfa Cymru yn cefnogi ei holl weithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid sy'n codi pryderon am ddiogelu.

10.4. Dylai unigolyn sy'n pryderu am blentyn gymryd camau gweithredu. Ni ddylai diffyg gweithredu fod yn opsiwn. Gallai'r pryderon fod yn gysylltiedig ag ymwelydd, aelod o staff neu unrhyw un sy'n dod i'n safleoedd – mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i bawb.

## YMATEB

10.5. Wrth ymateb i berygl diogelu sy'n cynnwys plentyn:

- Ceisiwch aros yn ddigynnwrf ac yn bwyllog
- Ceisiwch reoli eich mynegiant wyneb; peidiwch â dangos ofn/arswyd/sioc/anghrediniaeth am yr hyn sy'n cael ei rannu
- Dylech wrando'n ofalus a chydymdeimlo
- Peidiwch â chytuno i gadw cyfrinach, mae'n bosib y bydd angen i chi rannu'r pryderon er mwyn amddiffyn y plentyn neu bobl eraill
- Peidiwch â herio na gwrthddweud yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud, dylech wrando a chydymdeimlo
- Hyd yn oed os oes amheuaeth am y datgeliad neu'r pryder, dylech drin y pryder fel gwirionedd
- Dywedwch wrth y plentyn mai eu diogelwch a'u lles nhw yw eich prif flaenoriaeth

- Byddwch yn agored gyda nhw ac esboniwch fod yn rhaid i chi rannu'r pryder yn gyfrinachol gyda'ch Arweinydd Diogelu Safle neu'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig er mwyn helpu'r sefyllfa.

10.6. I ddechrau, aseswch y sefyllfa, a oes risg ar fin digwydd, a oes angen y gwasanaethau brys – os felly, cymrwch gamau angenrheidiol a phriodol drwy ffonio 999.

10.7. Mae camau er mwyn rheoli risg sydd ar fin digwydd yn debygol o gynnwys:

- Cysylltu â'r gwasanaethau brys
- Sicrhau diogelwch a lles y plentyn
- Beth hoffai'r plentyn i ddigwydd?
- Sicrhau diogelwch a lles pobl eraill (gan gynnwys eich hunan)
- Os oes posibilrwydd bod trosedd wedi'i chyflawni, dylech ddiogelu unrhyw dystiolaeth (lle bo'n bosib, gadewch y dystiolaeth yn ei lle a'i gwarchod nes i'r gwasanaethau brys eich cynghori fel arall)

10.8. Mor fuan â phosib ar ôl cyflawni'r cam gweithredu brys, ceisiwch ddod o hyd i aelod arall o staff neu oedolyn arall i fod gyda chi.

10.9. Rhowch wybod i'ch Arweinydd Diogelu Safle neu'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig. Os nad ydyn nhw ar gael, dylech hysbysu uwch oruchwyliwr. Unwaith y byddwch wedi hysbysu un o'r tri swyddog hynny, dylech gofnodi'r holl gamau a gymerwyd (gweler **COFNODI** isod).

10.10. Os nad oes risg uniongyrchol, neu ar ôl i'r risg basio, siaradwch â'r plentyn dan sylw. Dywedwch wrth y plentyn beth sy'n digwydd, a rhoi sicrwydd iddynt fod popeth yn cael ei wneud i'w helpu nhw.

## COFNODI

10.11. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r holl gamau a gymerwyd.

- Nodwch holl fanylion yr unigolyn dan sylw (os nad ydyn nhw'n aelod o staff)
- Gwnewch nodiadau manwl am beth rydych chi wedi'i weld, ei dystio, a'i glywed
- Os oes honiad penodol wedi'i wneud, ceisiwch gofnodi'r sylwadau hynny mewn cymaint o fanylder â phosibl
- Lle bo'n berthnasol, dylech gynnwys yr union eiriau, er enghraifft os oes iaith gamdriniol neu annymunol yn cael ei defnyddio, dylech nodi'r iaith fel ag y mae, peidiwch â newid/diwygio na lleihau'r effaith
- Os oes unigolyn yn cael ei anafu, nodwch ddisgrifiad o'r anafiadau fel y gwelsoch chi nhw
- Cofnodwch yr hyn y gwnaethoch chi a pham
- Cofnodwch ddymuniadau'r plentyn – ystyriwch ddull sy'n seiliedig ar y plentyn
- Nodwch pwy arall oedd yn bresennol, pwy arall a allai fod wedi clywed neu weld y digwyddiad – gofynnwch am fanylion cyswllt unrhyw un nad yw'n aelod o staff
- Nodwch y dyddiad ac amser ar eich nodiadau a'u llofnodi. Os ydych chi'n defnyddio dull recordio electronig, ystyriwch anfon eich nodiadau at eich hunan gan ddefnyddio'r system e-bost fewnol
- COFIWCH – gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad, mae'n bosib y bydd eich nodiadau'n cael eu rhannu'n fewnol neu â chyrff allanol, neu mewn llysoedd troseddol hyd yn oed, i graffu arnynt. Byddwch yn ffeithiol, yn fanwl, a pheidiwch â nodi barn
- Dylech BOB AMSER gadw dogfennaeth yn ddiogel a'r cynnwys yn gyfrinachol

## ADRODD

10.12. Fel y nodwyd yn yr adran **YMATEB** uchod, mewn argyfwng, dylech gysylltu â'r gwasanaethau brys drwy ffonio 999.

10.13. Pan fydd asiantaethau statudol ynghlwm â'r achos, dylech weithio yn gydweithredol ac yn gyfunol mewn modd amlddisgyblaethol. Yr heddlu ddylai gael goruchafiaeth, a dylid darparu cymorth ac adnoddau yn ôl yr angen.

10.14. Sicrhewch fod dymuniadau'r plentyn sy'n destun y pryder wedi cael eu clywed a'u bod wedi bod yn rhan o'r penderfyniad, lle bo'n bosib.

10.15. Dylid trosglwyddo’r holl ddogfennaeth/manylion am y digwyddiad neu bryder i’r Arweinydd Diogelu Safle neu’r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

10.16. Rhaid cadw cyfrinachedd, a rhaid storio’r ddogfennaeth yn ddiogel, ac ni ddylid rhannu manylion tu allan i’r broses adrodd sydd wedi’i nodi yn y weithdrefn yma. Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig fydd yn gyfrifol am storio’r ddogfennaeth yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Data Amgueddfa Cymru.

10.17. Wrth rannu gwybodaeth, dylech gofio’r rheolau aur yma:

- Os ydych yn pryderu, dylech ofyn am gyngor bob amser
- Byddwch yn dryloyw – nid rhwystr rhag rhannu gwybodaeth yw’r Ddeddf Diogelu Data, cyhyd â bod data personol yn cael ei rannu’n briodol a lle bo’n angenrheidiol (dilynwch brotocolau Diogelu Data Amgueddfa Cymru)
- Ystyriwch fudd y cyhoedd – dylech seilio’r holl benderfyniadau i rannu gwybodaeth ar ddiogelwch a lles yr unigolyn dan sylw neu’r bobl yr effeithiwyd arnyn nhw gan eu gweithredoedd. Bydd Lles y plentyn yn cymryd blaenoriaeth bob amser.
- Rhannwch gyda chaniatâd y plentyn lle bo’n briodol. Gallwch rannu gwybodaeth heb ganiatâd, os yw hyn er lles y plentyn.
- Cadwch gofnod – dylech gofnodi eich penderfyniad a’r rheswm dros rannu’r wybodaeth ai peidio.
- Manwl gywir, angenrheidiol, cymesur, perthnasol a diogel – sicrhewch fod yr holl wybodaeth a gaiff ei rhannu yn gywir, yn gyfredol, ac yn angenrheidiol. Dim ond yr wybodaeth sydd angen ei rhannu, gyda’r unigolion sydd angen gweld yr wybodaeth, y dylid ei rhannu.

# 11. Camau Ychwanegol ar gyfer Arweinwyr Diogelu

11.1. Ystyriwch yr holl adroddiadau/pryderon a godwyd, a yw'r holl gamau i reoli unrhyw beryglon uniongyrchol wedi'u cwblhau?

11.2. Os oes trosedd wedi'i chyflawni, ond nad yw'r heddlu wedi cael gwybod eto, ystyriwch a oes angen ac awdurdod i wneud hynny. Os oes angen, rhowch wybod i'r heddlu am y digwyddiad drwy ffonio 999 neu 101. Gall hyn gynnwys lle bod Amgueddfa Cymru wedi bod yn destun trosedd neu le bod trosedd wedi digwydd ar safle'r Amgueddfa.

11.3. Nodwch yr aelodau o staff perthnasol sy'n bresennol, a gofynnwch iddyn nhw gofnodi eu gweithredoedd yn unol â'r uchod (**COFNODI**).

11.4. Sicrhewch fod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu a chadw recordiadau teledu cylch cyfyng o'r digwyddiad, os ydyn nhw ar gael.

11.5. Dylech gasglu ynghyd yr holl ddogfennaeth yn ddiogel i'w chyflwyno i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am ei storio'n gyfrinachol. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn ystyried pob digwyddiad diogelu plant, a phenderfynu adolygu'r amgylchiadau a'r camau a gymerwyd lle bo'n briodol. Bydd hyn yn nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu a allai fod o fudd wrth ymdrin â digwyddiadau neu bryderon yn y dyfodol.

11.6. Dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig adrodd yn gyfrinachol i'r Arweinydd Diogelu Strategol.

# 12. Geirfa a Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnwys unrhyw gamau i dorri organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu achosi niwed arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau heblaw rhai meddygol. Mae'r ddyletswydd adrodd gorfodol ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn ddyletswydd gyfreithiol sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015). Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cofrestredig ac athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r heddlu os ydyn nhw'n amau bod merch o dan 18 oed wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Bwlio | Does dim diffiniad cyfreithiol o fwlio.<br><br>Fodd bynnag, caiff ei ddiffinio gan ymddygiad sydd, fel arfer:<br>• yn cael ei ailadrodd<br>• â'r bwriad i frifo rhywun naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol<br>• wedi'i anelu at grwpiau penodol o bobl, er enghraifft oherwydd hil, crefydd, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol rhywun<br><br>Gall fod ar sawl ffurf a gall gynnwys:<br>• ymosodiad corfforol<br>• pryfocio<br>• bygwth<br>• galw enwau<br>• seibrfwlio – bwlio drwy ffonau symudol neu ar-lein (er enghraifft e-bost, rhwydweithiau cymdeithasol a negeseuon gwib) |
| Caethwasiaeth Oes Fodern | Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol.<br><br>(Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) |
| Camdriniaeth | Mae camdriniaeth yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed hynny mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), a chamdriniaeth ariannol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) . |
| Camdriniaeth Ariannol | Mae'n cynnwys:<br>(a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;<br>(b) bod person yn cael ei dwyllo; |

| | |
|---|---|
| | (c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;<br>(ch) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;<br>(DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)) |
| Camdriniaeth Emosiynol | Camdriniaeth emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus. Weithiau, gelwir hyn yn gamdriniaeth seicolegol a gall niweidio iechyd emosiynol a datblygiad plentyn yn ddifrifol. Gall camdriniaeth emosiynol gynnwys ceisio dychryn neu fychanu plentyn yn fwriadol neu ei ynysu neu anwybyddu. Yn aml, mae plant sy'n cael eu cam-drin yn emosiynol yn dioddef math arall o gamdriniaeth neu esgeulustod ar yr un pryd. Mae camdriniaeth emosiynol yn cynnwys: bychanu neu feirniadu plentyn yn barhaus; bygwth, gweiddi ar blentyn neu ei alw'n enwau; gwneud y plentyn yn destun sbort, neu ddefnyddio gwawd i frifo plentyn; beio, gwneud bwch dihangol o blentyn; gwneud i'r plentyn berfformio gweithredoedd diraddiol; peidio â chydnabod hunaniaeth plentyn; ceisio rheoli bywyd plentyn drwy ei wthio'n ormodol neu beidio â chydnabod ei gyfyngiadau; amlygu plentyn i ddigwyddiadau neu ryngweithiadau a all beri pryder, megis trais yn y cartref neu gymryd cyffuriau; methu â hyrwyddo datblygiad cymdeithasol plentyn; peidio â chaniatáu plentyn i gael cyfeillion; anwybyddu plentyn yn barhaus; bod yn absennol; defnyddio plentyn; byth yn dweud pethau caredig, mynegi teimladau cadarnhaol na llongyfarch plentyn ar lwyddiannau; byth yn dangos unrhyw emosiynau wrth ryngweithio gyda phlentyn, a elwir hefyd yn esgeulustod emosiynol.<br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Gorfforol | Oedolyn – mae hyn yn cynnwys taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaethau, ataliaeth ddiangen, neu gosbi amhriodol.<br><br>Plentyn – mae camdriniaeth gorfforol yn golygu brifo plentyn neu unigolyn ifanc yn fwriadol. Mae'n cynnwys ataliaeth gorfforol; er enghraifft clymu'r unigolyn i wely, eu cloi mewn ystafell, achosi llosgiadau, clwyfo, slapio, dyrnu, cicio, brathu neu grogi, trywanu neu saethu, gwrthod rhoi bwyd neu sylw meddygol, rhoi cyffuriau, atal rhag cysgu, achosi poen, ysgwyd neu fwrw babanod, ffugio neu achosi salwch.<br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Rywiol | Oedolyn – mae hyn yn cynnwys treisio ac ymosodiad rhywiol, neu weithgareddau rhywiol nad yw'r oedolyn wedi cydsynio iddynt, neu na allent gydsynio iddynt, neu y rhoddwyd hwy dan bwysau i gydsynio iddynt. |

| | |
|---|---|
| | Plentyn – mae 2 fath gwahanol o gam-drin plentyn yn rhywiol. Cânt eu galw yn gamdriniaeth drwy gyswllt a chamdriniaeth heb gyswllt.<br><br>Mae camdriniaeth drwy gyswllt yn cynnwys: gweithgareddau cyffwrdd, sef pan fydd camdriniwr yn dod i gysylltiad corfforol â phlentyn, gan gynnwys treiddiad; cyffwrdd unrhyw ran o'r corff mewn ffordd rywiol, p'un a yw'r plentyn yn gwisgo dillad ai peidio; treisio neu dreiddio drwy roi gwrthrych neu ran o'r corff tu mewn i geg, gwain neu anws plentyn; gorfodi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol; gorfodi plentyn i ddadwisgo, i gyffwrdd organau cenhedlu rhywun arall neu i fastyrbio.<br><br>Mae camdriniaeth heb gyswllt yn cynnwys: gweithgareddau heb gyffwrdd, er enghraifft meithrin perthynas yn amhriodol, cam-fanteisio, perswadio plant i berfformio gweithrediadau rhywiol dros y rhyngrwyd a fflachio. Mae'n cynnwys annog plentyn i wylio neu wrando ar weithrediadau rhywiol; peidio â chymryd camau priodol i atal plentyn rhag bod yn agored i weithrediadau rhywiol gan eraill; a chwrdd â phlentyn yn dilyn meithrin perthynas amhriodol ar-lein gyda'r bwriad o'u cam-drin. Mae camdriniaeth yn cynnwys creu, gwylio neu ddosbarthu delweddau o blant yn cael eu cam-drin, caniatáu i rywun arall wneud, gwylio neu ddosbarthu delweddau o blant yn cael eu cam-drin, dangos pornograffi i blentyn, cam-fanteisio ar blentyn yn rhywiol am arian, grym neu statws. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Seicolegol | Gweler Camdriniaeth Emosiynol (uchod) |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | Deddfwriaeth benodol sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas yn ehangach. Mae'n cynnig gwarchodaeth benodol i bobl o ran:<br><br>- Oed<br>- Anabledd<br>- Ailbennu rhywedd<br>- Priodas a Phartneriaeth Sifil<br>- Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>- Hil<br>- Crefydd neu Gred<br>- Rhyw<br>- Cyfeiriadedd Rhywiol |
| Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | Deddfwriaeth hanfodol bwysig sy'n diffinio'r gallu i unrhyw un dros 16 oed wneud eu penderfyniadau eu hunain. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd y Ddeddf yma. Yn benodol: |

| | |
|---|---|
| | • Bod hawl gan bob unigolyn i wneud ei benderfyniadau ei hunan, hyd yn oed os yw pobl eraill yn gweld hynny'n benderfyniad annoeth<br>• Bod rhaid cymryd yn ganiataol bod gan unigolyn gydsyniad<br><br>Mae hyn yn bwysig yn benodol o ran cydnabod bod gan oedolion yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Wrth weithio gydag unigolion, dylid gosod unigolion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a'u cynnwys yn y canlyniadau. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Deddf Senedd Cymru i ddiwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol; gwneud darpariaeth ynghylch gwella'r canlyniadau lles i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth; gwneud darpariaeth ynghylch cydweithredu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella lles pobl; gwneud darpariaeth ynghylch cwynion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; ac at ddibenion cysylltiedig.<br><br>Daeth y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus, fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. I sicrhau bod gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. |
| Deddf Plant 1989 | Gellir dadlau mai dyma'r darn pwysicaf o ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu plant. Mae'n gosod mandad y dylai lles plant fod yn brif ystyriaeth. |
| Deddf Plant 2004 | Mae'r Ddeddf yma'n adeiladu ar Ddeddf 1989 ond nid yw'n ei disodli. Mae'n cynnwys dyletswydd ar bob sefydliad i hyrwyddo a diogelu lles plant. |
| Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Diben y Ddeddf<br><br>(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella—<br><br>(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;<br><br>(b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;<br><br>(c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |

| | |
|---|---|
| Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 | Deddfwriaeth sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas yn ehangach o ran y Gymraeg. |
| Diogelu | Ystyr diogelu yw amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol unigolion a'u galluogi nhw i fyw eu bywydau yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod (y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2014). |
| Esgeulustod | Ystyr esgeulustod yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn); (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)). |
| Lles | Diffinnir lles yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n berthnasol i blant yn ogystal ag oedolion mewn perthynas ag unrhyw rai o'r canlynol:<br><br>(a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol;<br>(b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;<br>(c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;<br>(ch) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;<br>(d) cyfraniad a wneir at gymdeithas;<br>(dd) sicrhau hawliau a hawlogaethau;<br>(e) lles cymdeithasol ac economaidd;<br>(f) addasrwydd llety preswyl;<br>(ff) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. |
| Niwed | Ystyr niwed yw cam-drin neu amharu ar (a) iechyd corfforol a meddyliol, neu (b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol. (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)). |
| Oedolyn | Mae unrhyw un dros 18 oed yn oedolyn yn ôl y gyfraith. |
| Oedolyn sy'n agored i niwed | Terminoleg a grëwyd yn Nogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru, Mewn Dwylo Diogel, yn 2000. Mae'r term 'Oedolyn sy'n agored i niwed' bellach wedi'i ddisodli gan y term 'Oedolyn sy'n wynebu risg', fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Oedolyn sy'n wynebu Risg | Unigolyn dros 18 oed:<br><br>Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso AC |

| | |
|---|---|
| | Y mae arno anghenion gofal a chymorth<br>(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)<br>AC<br>nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hunan rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | Ystyr 'plentyn sy'n derbyn gofal' yw plentyn sydd wedi bod o dan ofalaeth yr awdurdod lleol am fwy na 24 awr. Cyfeirir at blant sy'n derbyn gofal fel 'plant mewn gofal' hefyd, term sy'n cael ei ffafrio gan lawer o blant a phobl ifanc. (NSPCC). |
| Plentyn | Mae unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn yn ôl y gyfraith. |
| Plentyn sy'n wynebu Risg | Unigolyn o dan 18 oed:<br><br>Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed<br>AC<br>y mae arno anghenion gofal a chymorth<br>(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) |
| Priodas dan Orfod | Mae gennych hawl i ddewis pwy rydych chi'n priodi, pryd fyddwch chi'n priodi neu ddewis peidio â phriodi.<br><br>Priodas dan orfod yw pan fyddwch yn wynebu pwysau corfforol i briodi (er enghraifft, bygythiadau, trais corfforol neu drais rhywiol) neu bwysau emosiynol a seicolegol (er enghraifft os oes rhywun yn gwneud i chi deimlo eich bod yn codi gwarth ar y teulu).<br><br>Mae priodas dan orfod yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• cipio rhywun dramor i'w gorfodi i briodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)<br>• priodi rhywun nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i'r briodas (p'un a ydyn nhw'n cael eu gorfodi ai peidio) |
| Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod | Mae Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn cyfeirio at rai o'r ffynonellau straen mwyaf dwys a rheolaidd y gallai plant ddod ar eu traws yn gynnar yn eu bywydau. Mae wedi'i ddangos bod straen sylweddol a hirfaith yn ystod plentyndod yn cael effaith hirdymor ar iechyd a lles unigolyn. Gall amharu ar ddatblygiad cynnar yr ymennydd ac effeithio ar allu'r systemau nerfol ac imiwnedd i weithio. Yn ogystal, oherwydd yr ymddygiadau mae rhai pobl sydd wedi wynebu profiadau niweidiol mewn plentyndod wedi'u |

| | |
|---|---|
| | datblygu, mae straen o'r fath yn gallu arwain at broblemau difrifol fel alcoholiaeth, iselder, anhwylderau bwyta [a phroblemau sylweddol eraill]. (Sefydliad Iechyd y Byd). |
| Radicaleiddio | Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses pan fydd unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth neu ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgaeth. (Strategaeth Atal Llywodraeth San Steffan). |
| Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol | Enw ar yr unigolyn mewn awdurdod lleol sy'n gyfrifol am reoli a monitro honiadau diogelu yn erbyn gweithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig a di-dâl yw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol. Maen nhw'n darparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i gyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol am honiadau a phryderon diogelu. |
| Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd<br>Dyma'r enw ar y broses lle mae'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill i reoli'r peryglon posib pan fydd troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar yn byw yn y gymuned er mwyn amddiffyn y cyhoedd. |
| Trosedd Casineb | Mae troseddau sy'n cael eu cyflawni yn erbyn rhywun ar sail eu hanabledd, hunaniaeth drawsryweddol, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol yn droseddau casineb a dylid rhoi gwybod amdanynt i'r heddlu.<br><br>Mae troseddau casineb yn gallu cynnwys:<br><br>• ymddygiad bygythiol<br>• ymosodiad<br>• lladrad<br>• difrodi eiddo<br>• annog eraill i gyflawni troseddau casineb<br>• aflonyddu |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Ystyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yw:<br><br>(a) ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw unigolyn,<br>(b) ymddygiad sydd â'r gallu i beri niwsans neu annifyrrwch i unigolyn o ran meddiannaeth yr unigolyn hwnnw ar eiddo preswyl, neu<br>(c) ymddygiad sydd â'r gallu i beri niwsans neu annifyrrwch i unigolyn o ran tai.<br>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 |

| | |
|---|---|
| Ymosodiad | Mae tri math o drosedd sylfaenol sy’n ymwneud ag ymosodiad i’w cael mewn deddfwriaeth – ymosodiad cyffredin, gwir niwed corfforol (ABH) a chlwyfo / niwed corfforol difrifol (GBH). Maen nhw’n cael eu diffinio’n bennaf gan y niwed sy’n cael ei achosi i’r dioddefwr – gydag ymosodiad cyffredin ar waelod y raddfa niwed a niwed corfforol difrifol ar y pen arall.<br><br>Maen nhw’n cynnwys popeth o ddefnyddio geiriau ymosodol i ymosodiad corfforol difrifol sy’n achosi anabledd parhaol i’r dioddefwr. |